

Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf
Man Croesi i Gerbydau Domestig ('Cwrb
IseI')

Dogfen ganllaw

Rhif y Ddogfen
Cyfrol 1

Chwefror 2022



STRONG HERITAGE | STRONG FUTURE
RHONDDA CYNON TAF
TREFTADAETH GADARN | DYFODOL SICR

Cynnwys

1	CYFLWYNIAD	1
2	YSTYRIAETHAU CYFREITHIOL	1
2.1	Ystyriaethau cynllunio	1
3	YSTYRIAETHAU CYN CYFLWYNO CAIS	2
3.1	Diogelwch y ffyrdd	2
3.2	Cerbydau'n estyn allan ar y ffordd a chroesi'r droedffordd gyhoeddus yn anghyfreithlon.	2
3.3	Ail gwrw isel / Ymestyn cwrw isel	3
3.4	Effaith ar eiddo cyfagos	3
3.5	Adeiladu cwrw isel	3
3.6	Marciau ffordd Bar H	3
4	CYFLWYNO CAIS	4
4.1	Ffioedd	5
4.2	Cydlynu â'r rhaglen adnewyddu troedffyrdd.	5
4.3	Gwrthod cwrw isel	5

1 CYFLWYNIAD

Bydd y ddogfen yma'n eich helpu i ddeall y weithdrefn a'r meini prawf i'w dilyn er mwyn cael cymeradwyaeth ffurfiol gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf ("y Cyngor") i adeiladu cwrw isel ar draws troedffordd gyhoeddus neu lwybr troed ac/neu ymyl y ffordd.

Mae'r ddogfen yma'n rhoi gwybodaeth am y materion rydyn ni yn y Cyngor yn eu hystyried wrth asesu pob cais. Bydd achosion yn cael eu hasesu ar sail unigol yn unol â'r canllawiau a'r ddeddfwriaeth gyfredol. **SYLWCH** dydy manau croesi blaenorol ddim yn gosod cysail.

2 YSTYRIAETHAU CYFREITHIOL

O dan Adran 184 o Ddeddf Priffyrdd 1980 ("y Ddeddf"), rhaid i fodurwyr sy'n dymuno teithio ar draws troedffordd neu ymyl y ffordd i gael mynediad i barcio ar eu heiddo adeiladu man croesi i gerbydau. Rhaid cael mynediad o'r briffordd i eiddo preifat yn ddiogel ac yn gyfreithlon wrth greu man croesi i gerbydau, sy'n cael ei adnabod hefyd yn "gwrw isel". Yn rhan o'r broses yma, mae'r droedffordd yn cael ei hailadeiladu a'i chryfhau i wrthsefyll pwysau cerbyd nwyddau ysgafn ac mae uchder y cwrw yn cael ei leihau fel bod modd mynd drosto'n hawdd.

2.1 Ystyriaethau cynllunio

Yn ogystal â bod angen caniatâd y Cyngor (yn Awdurdod y Priffyrdd), mae'n bosibl y bydd angen caniatâd cynllunio hefyd ar yr ymgeisydd o dan Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 i greu 'mynedfa i gerbydau'.

Yn gyffredinol, mae angen caniatâd cynllunio o dan yr amgylchiadau canlynol, er dydy'r rhestr yma ddim yn holl gynhwysfawr:

- mae'r mynediad ar ffordd ddosbarthiadol neu gefnffordd
- mae'r mynediad i eiddo masnachol
- mae'r mynediad i eiddo sy'n fflat deulawr neu eiddo wedi'i rannu'n fflatiau
- mae'r mynediad i adeilad rhestredig
- mae'r mynediad mewn ardal gadwraeth
- mae'r mynediad yn debygol o amharu ar goeden sydd wedi ei gwarchod gan Orchymyn Cadw Coed

Mae'r ymgeisydd yn gyfrifol am wirio a oes angen caniatâd cynllunio – a chael y caniatâd hwnnw lle bo angen - cyn cyflwyno cais am gwrw isel.

Os oes angen caniatâd cynllunio ar y cais, yna bydd ffi gynllunio'n berthnasol pan gaiff y cais cynllunio ei gyflwyno.

Lle mae caniatâd cynllunio eisoes wedi'i roi, rhaid cyflwyno llythyr caniatâd, unrhyw gynlluniau sydd wedi'u cymeradwyo a'r amodau cysylltiedig gyda'r ffurflen gais am y cwrw isel.

3 YSTYRIAETHAU CYN CYFLWYNO CAIS

Mae'r rhestr isod yn rhoi gwybod am yr hyn y byddwn ni'n ei ystyried wrth asesu eich cais:

- Bydd modd i gerbydau fynd i mewn i'r safle a'i adael yn ddiogel
- Bydd modd i gerbydau a cherddwyr ar y ffordd deithio'n ddiogel
- Yr angen i gryfhau'r droedffordd/ymyl y ffordd i wrthsefyll pwysau cerbydau a sicrhau bod gwasanaethau statudol o dan y palmant/ymyl y ffordd yn cael eu diogelu.
- Rhaid parcio'r cerbyd yn gyfan gwbl y tu mewn i ardal yr eiddo. Mae unrhyw gerbyd sy'n estyn allan ar y droedffordd yn cyflawni trosedd o dan Adran 137 o Ddeddf Priffyrdd 1980

Dyma gynghori ymgeiswyr yn gryf i ddarllen y ddogfen ganllaw lawn i sicrhau eu bod nhw'n bodloni'r holl feini prawf cyn cyflwyno cais am gwrw isel.

Caiff trigolion ofyn i Awdurdod y Priffyrdd adeiladu cwrw isel a chaiff Awdurdod y Priffyrdd gymeradwyo'r cais gydag addasiadau neu hebbyn nhw, cynnig gwaith arall, neu wrthod y cais.

3.1 Diogelwch y ffyrdd

Gall unrhyw gais i adeiladu cwrw isel gael ei wrthod neu ei addasu ar sail diogelwch y priffyrdd a cherddwyr. Bydd y Cyngor yn sicrhau bod llinellau golwg digonol yn cael eu cynnal i ganiatáu mynediad diogel i eiddo.

Mae sefyllfaoedd lle gall symud ar y briffordd neu oddi arni fod yn beryglus yn cynnwys:

- Ar ran o ffordd lle mae cerbydau'n gyrru'n gyflym
- Wrth nesáu at gyffordd signalau traffig lle mae cerbydau'n ciwio'n rheolaidd
- Ar gylchfan
- O fewn marciau igam-ogam croesfan i gerddwyr
- Yn union gerllaw ynys i gerddwyr, a fyddai'n effeithio ar allu cerbyd i droi'n effeithiol
- Ar safle bysiau lle gallai defnyddio cwrw isel darfu ar deithwyr sy'n aros am fws neu ei gwneud yn anodd i deithwyr anabl fynd ar fws neu ddod oddi arno; ac yng nghyffiniau cyffordd

3.2 Cerbydau'n estyn allan ar y ffordd a chroesi'r droedffordd gyhoeddus yn anghyfreithlon.

Mae'n anghyfreithlon gyrru cerbyd ar draws llwybr troed cyhoeddus heb ddefnyddio croesfan droedffordd sydd wedi'i hadeiladu'n briodol (A184(17) o Ddeddf Priffyrdd 1980).

Does dim hawl i unrhyw ran o gerbyd sydd wedi'i barcio o flaen eiddo estyn allan i'r briffordd neu drosti. Does dim hawl defnyddio'r cwrw isel yn lle parcio a does dim rhan ohono wedi'i eithrio at ddiben parcio ar y droedffordd.

3.3 Ail gwrw isel / Ymestyn cwrw isel

Mae gyda thirfeddianwyr yr hawl i gael mynediad i'w heiddo o le bynnag maen nhw'n ei ddewis cyn belled â bod modd ei wneud yn ddiogel. O ystyried cynllun rhwydwaith priffyrdd CBSRhCT, gall cyflwyno cyrbiau isel ychwanegol fod o fudd i ardaloedd yn y ffyrdd canlynol:

- Bydd dyrannu lleoedd parcio ychwanegol oddi ar y stryd yn gwella hygrychedd i gerbydau brys
- Mae gyda'r eiddo gwrw isel eisoes a chaiff ei ystyried yn addas ar gyfer ail gwrw isel er mwyn caniatáu parcio ceir ychwanegol ar y llain barcio (dreif)
- Mewn mannau cul mae nifer sylweddol o gerbydau yn cael eu parcio ar y troedffyrdd ac yn rhwystro cerddwyr rhag symud yn ddiogel

3.4 Effaith ar eiddo cyfagos

Er mwyn cyfyngu ar yr effaith ar gymdogion, fel arfer dylid dim ond darparu cwrw isel dros y rhan o'r droedffordd sydd o flaen eiddo'r ymgeisydd.

3.5 Adeiladu cwrw isel

Mae'n drosedd i unrhyw un wneud unrhyw newidiadau i'r droedffordd gyhoeddus heb ganiatâd Awdurdod y Priffyrdd. Gallai unrhyw gwrw isel heb ei awdurdodi achosi i'r droedffordd ddirywio a tharfu ar ddiogelwch y rheiny sy'n ei defnyddio.

Rhaid i gwrw isel gael ei adeiladu gan gcontractwr cymeradwy. Yn gyffredinol, bydd cwrw isel yn cael ei adeiladu gan ddefnyddio tarmac neu balmant bloc i gyd-fynd â'r droedffordd sydd yno eisoes. Os yw'r eiddo mewn Ardal Gadwraeth, bydd y cwrw isel yn cael ei adeiladu i gyd-fynd ag wyneb y droedffordd.

Pan fydd y cwrw isel wedi'i adeiladu, lle bo'n berthnasol, bydd yn dod yn rhan o'r briffordd gyhoeddus a bydd yn cael ei chynnal a'i chadw gan y Cyngor yn rhan o'i rwydwaith.

Mae manylion adeiladu cymeradwy'r Cyngor ar gyfer cwrw isel ar ffyrdd masnachol ar gael drwy'r ddolen isod (**Saesneg yn unig**). Mae modd darparu rhagor o fanylion ar gyfer tai a chartrefi:

<https://www.rctcbc.gov.uk/EN/Business/PlanningPropertyandBuildingControl/Plans/141footwayandvehicularcrossoverindustrialandcommercialroads141.pdf>

3.6 Marciau ffordd Bar H

Os yw ymgeisydd am atal pobl rhag parcio o flaen ei gwrw isel, mae opsiwn i ddarparu mesur cynghori yn erbyn hyn, sef marciau diogelu mynediad (Bar H). Dyma linell wen sy'n mynd ar draws y dreif yn gyfochrog â llinell y cwrw. Sylwch fod ffi ychwanegol yn gysylltiedig â Bar H a bydd angen i gcontractwr marcio ffordd cymeradwy ei osod.

Caiff unrhyw rwystr ar gwrw isel ei ystyried yn rhwystr i'r briffordd p'un a oes marc yno ai peidio. Dylid cyfeirio materion o'r fath at yr Heddlu. Gall Swyddogion Gorfodi Materion Parcio Sifil y Cyngor roi hysbysiad i gerbydau sydd wedi'u parcio o flaen cwrw isel ond does dim pwerau gyda nhw i symud y cerbyd.

4 CYFLWYNO CAIS

Cewch ddefnyddio ein ffurflen ar-lein i gyflwyno cais am gwrw isel. Bydd angen:

- llun/braslun o'r cwrw isel arfaethedig

Mae'r ffurflen gais ar gael ar wefan y Cyngor.

<https://www.rctcbc.gov.uk/CY/Resident/ParkingRoadsandTravel/Parking/Applyforadroppedkerb.aspx>

Ar ôl i'ch cais ddod i law, bydd un o'n harolygwyr yn ei ystyried. Bydd y cais wedyn yn cael ei gymeradwyo neu'i wrthod ar sail egwyddor.

Sylwch: Os caiff y cais ei gymeradwyo, dim ond am 12 mis o'r dyddiad cymeradwyo y mae'n ddilys.

Os caiff ei gymeradwyo, byddwn ni'n anfon rhagor o ffurflenni (VC2-5) atoch chi sy'n gofyn am ragor o fanylion. Mae hyn yn cynnwys gwybodaeth am yr adeiladwr/contractwr rydych chi'n dymuno ei benodi a'u polisïau yswiriant/indemniad. Mae'r ffurflenni yma hefyd yn gofyn am wybodaeth ynghylch pryd rydych chi'n bwriadu dechrau ar y gwaith. Mae modd ystyried y ffurflenni yma'n ganiatâd i'r gwaith fynd rhagddo.

Sylwch, mae angen llenwi'r ffurflenni yma a'u dychwelyd o leiaf saith diwrnod cyn i'r gwaith ddechrau.

Bydd archwiliadau'n cael eu cynnal yn rheolaidd i sicrhau bod y cwrw isel yn bodloni'r gofynion cyfredol.

Ar ôl cwblhau'r gwaith, mae angen i chi lenwi ffurflen VC5 sy'n cadarnhau bod y gwaith wedi'i gwblhau.

Ar ôl i'r ffurflen yma ddod i law, bydd arolygydd yn ymweld â'r safle i sicrhau bod y gwaith wedi'i gwblhau yn ôl y gofynion.

Cyhyd â bod y gwaith yn bodloni'r gofynion, byddwch chi'n cael cadarnhad bod y cwrw isel bellach yn ei le a bydd yn cael ei gynnal a'i gadw gan yr Awdurdod Lleol.

Os dydy'r gwaith ddim yn bodloni'r gofynion, bydd angen gwneud rhagor o waith gwella hyd nes y caiff y gofynion eu bodloni.

4.1 Ffioedd

Mae Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Taliadau Trafnidiaeth) 1998 yn awdurdodi Awdurdodau Lleol i ofyn am ffi am ymdrin â materion penodedig ynghylch rhai swyddogaethau'r priffyrdd, rheoliadau traffig y ffyrdd a materion teithio. Mae'r Cyngor yn codi tâl am ystyried cais i adeiladu cwrw isel yn unol â'r meini prawf gofynnol.

Bydd cost adeiladu cwrw isel yn amrywio ar gyfer pob cais. Bydd y gost yn dibynnu ar faint o waith sydd angen ei wneud, ac argaeledd adnoddau.

Mae yna nifer o ffactorau allanol a all wneud y ffi yn uwch:

- Yr effaith ar fwynderau'r priffyrdd sydd yno eisoes, er enghraifft goleuadau'r stryd, coed, arwyddbyst a lleoedd parcio – gallai hyn gynnwys ffioedd am ymweliad gan Swyddog Arbenigol, symud neu adleoli'r amwynder, technegau peirianyddol arbenigol, cloddio mewn perthynas â choed cyn gwneud y gwaith neu ymgynghori ynghylch lleoedd parcio
- Lled y droedffordd a maint y cwrw isel arfaethedig
- Caniatâd cynllunio os oes angen
- Gosod marciau ffordd Bar H (os yw'r ymgeisydd yn dewis yr opsiwn yma)
- Is-gontractwyr sy'n gwneud y gwaith.
- Gorchuddion cyfleustodau sydd angen eu newid

4.2 Cydlynu â'r rhaglen adnewyddu troedffyrdd.

Os yw'r lleoliad yma wedi derbyn cyllid cyfalaf cymeradwy a bod yr Awdurdod Lleol yn bwriadu gwneud gwaith cynnal a chadw ar y palmentydd, a chithau'n un o'r trigolion, byddwch chi wedi cael llythyr sy'n rhoi gwybod am y cynllun. Wedi hynny, os byddwch chi'n penderfynu cyflwyno cais am gwrw isel, efallai y cewch chi ostyngiad ar eich ffi oherwydd y gwaith yma sydd eisoes wedi'i drefnu. Bydd y gostyngiad yma ddim ond yn berthnasol os dydy'r cwrw isel ddim yn effeithio ar gelfi stryd neu lleoedd parcio.

Wrth gyflwyno cais am gwrw isel, a fyddech cystal â chynnwys nodyn i roi gwybod i Garfan Cynnal a Chadw'r Priffyrdd bod llythyr adnewyddu'r droedffordd wedi dod i law. Byddan nhw wedyn yn gwirio hyn ac yn ei gymryd i ystyriaeth yn rhan o'r broses ymgeisio.

Rhaid cytuno ar yr holl gostau cyn cychwyn ar unrhyw waith.

4.3 Gwrthod cwrw isel

Yn ôl y gyfraith gyffredin, mae gyda pherchnogion eiddo'r hawl i gael mynediad i'r briffordd o'u heiddo unrhyw le y mae eu tir yn cyffwrdd â hi. Dim ond pan fydd yn ystyried bod mynedfa breifat o'r briffordd i unrhyw eiddo yn debygol o achosi perygl i, neu ymyrryd yn afresymol â, thraffig ar y briffordd y mae gyda'r Cyngor bwerau i gau neu atal mynediad i'r briffordd. I grynhoi, dim ond ar sail diogelwch y bydd y Cyngor yn gwrthod cais.